# Cynorthwyo gyda gwasanaethau pyrmio gwallt

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'r sgiliau sylfaenol o dynnu cemegau a niwtraleiddio'r gwallt fel rhan o'r broses byrmio. Bydd y gwaith yn cael ei gyflawni dan gyfarwyddyd y cynllunydd gwallt.

Er mwyn gweithredu'r safon hon, bydd angen ichi gynnal a chadw iechyd, diogelwch a hylendid drwy gydol eich gwaith. Bydd rhaid ichi hefyd gynnal a chadw ymddangosiad personol proffesiynol ac arddangos sgiliau cyfathrebu effeithiol.

Prif ddeilliannau'r safon hon yw:

1. cynnal a chadw dulliau effeithiol a diogel o weithio wrth gynorthwyo gyda gwasanaethau pyrmio
2. tynnu cemegau fel rhan o'r broses byrmio
3. niwtraleiddio gwallt fel rhan o'r broses byrmio

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cynnal a chadw dulliau effeithiol a diogel o weithio wrth gynorthwyo gyda gwasanaethau pyrmio**

*
*

1.
cynnal a chadw eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch drwy gydol y gwasanaeth
2.
paratoi eich cleient er mwyn bodloni gofynion y salon
3.
dilyn cyfarwyddiadau'r cynllunwyr gwallt drwy gydol y gwasanaeth
4.
diogelu dillad eich cleient drwy gydol y gwasanaeth
5.
gwisgo cyfarpar gwarchod personol wrth ddefnyddio cemegau niwtraleiddio
6.
gosod eich cleient mewn safle sy'n bodloni anghenion y gwasanaeth heb iddyn nhw fod yn anghysurus
7.
sicrhau bod eich osog a'ch safle chi eich hun wrth weithio yn lleihau blinder a'r risg o anaf
8.
cadw eich ardal waith yn lân a thaclus drwy gydol y gwasanaeth
9.
defnyddio dulliau gweithio sy'n:

9.1 lleihau gwastraff cemegau niwtraleiddio

9.2 lleihau'r risg o groes-heintiad

gwneud defnydd effeithiol o'ch amser gweithio

9.3 sicrhau'r defnydd o adnoddau glân

9.4 lleihau'r risg o niwed neu anaf i chi eich hun a'r cleientiaid

1.
sicrhau bod eich hylendid, eich diogelwch a'ch ymddangosiad personol yn bodloni gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
2.
dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a'r cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr er mwyn gwneud defnydd diogel o gyfarpar, defnyddiau a chynhyrchion
3.
gwared defnyddiau gwastraff
4.
ailgyflenwi adnoddau sydd wedi cyrraedd lefelau isel, pan fydd angen hynny, er mwyn lleihau unrhyw amharu ar eich gwaith personol ac ar y cleientiaid

**Tynnu cemegau fel rhan o'r broses byrmio**

*
*

1.
tynnu cemegau mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o niwed i'r gwallt gan ddilyn cyfarwyddiadau'r cynllunydd gwallt
2.
sicrhau bod eich dulliau gweithio yn lleihau'r risg o daenu cemegau ar groen a dillad y cleient a'r mannau cyfagos
3.
addasu tymheredd, gwasgedd a chyfeiriad y dŵr er mwyn sicrhau cyfforddusrwydd y cleient ac i ddiogelu'r gwallt
4.
gadael y gwallt a'r croen pen yn lân ac yn rhydd o gemegau a gor-leithder
5.
cyfeirio unrhyw broblemau na allwch eu datrys at sylw'r person perthnasol
6.
sicrhau bod y cynllunydd gwallt yn fodlon â'r gwaith o dynnu cemegau

*
*

**Niwtraleiddio gwallt fel rhan o'r broses byrmio**

1. paratoi'r cyfrwng niwtraleiddio gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a'r cynllunydd gwallt
2. taenu'r niwtralydd yn wastad gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
3. cyfeirio unrhyw broblemau na allwch eu datrys at y person perthnasol
4. amseru'r broses niwtraleiddio gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a'r cynllunydd gwallt
5. tynnu'r rhodiau pyrmio heb aflonyddu ar ffurfiant y cwrls
6. gadael y gwallt yn rhydd o unrhyw olion o'r niwtralydd heb aflonyddu ar batrwm y cwrls
7. taenu a thynnu cyflyrydd arwyneb, pan ddefnyddir hwnnw, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a'r cynllunydd gwallt

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Cynnal a chadw dulliau effeithiol a diogel o weithio wrth gynorthwyo gyda gwasanaethau pyrmio**

*

*

1. eich cyfrifoldebau dros **iechyd a diogelwch** fel y maent wedi eu diffinio gan unrhyw ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'ch rôl swydd

**2. gofynion eich salon ynglŷn â pharatoi cleient**

1.
pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau eich cynllunydd gwallt
2.
pwysigrwydd cadarnhau eich bod wedi deall y cyfarwyddiadau a roddwyd gan y cynllunydd gwallt
3.
y mathau o ddillad gwarchod a'r cynhyrchion a ddylai fod ar gael i chi eich hun ac i'r cleientiaid
4.
beth yw dermatitis cyffwrdd, a sut i osgoi ei ddal wrth gynorthwyo gyda gwasanaethau pyrmio
5.
sut y gall safle eich cleient a chi eich hun gael effaith ar y canlyniad a ddymunir a lleihau blinder a'r risg o anaf
6.
pam ei bod yn bwysig cadw eich ardal waith yn lân a thaclus
7.
pwysigrwydd lleihau gwastraff cemegau pyrmio
8.
dulliau gweithio'n ddiogel ac yn lanwaith ac sy'n lleihau'r risg o groes-heintiad a thraws-bla
9.
pwysigrwydd hylendid a hunan-gyflwyniad personol er mwyn cynnal a chadw **iechyd a diogelwch** yn eich gweithle

10.
cyfarwyddiadau cyflenwyr a gwneuthurwyr ar gyfer gwneud defnydd diogel o gyfarpar, defnyddiau a chynhyrchion y mae'n rhaid i chi eu dilyn
11.
gofynion eich salon a'r gofynion cyfreithiol ar gyfer gwared defnyddiau gwastraff
12.
y person y dylech adrodd wrthi/wrtho am adnoddau sydd wedi cyrraedd lefelau isel
13.
terfynau eich awdurdod personol ar gyfer datrys problemau pyrmio

**Tynnu cemegau fel rhan o'r broses byrmio**

*
*

1.
sut i dynnu cemegau mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o niwed i'r gwallt
2.
pwysigrwydd sicrhau bod eich dulliau gweithio yn lleihau'r risg i'r cemegau gael eu taenu ar groen a dillad y cleient a'r mannau cyfagos
3.
pam y byddech yn addasu tymheredd, gwasgedd a chyfeiriad y dŵr er mwyn ategu cyfforddusrwydd y cleient a diogelu'r gwallt
4.
pwysigrwydd gadael y gwallt a'r croen pen yn lân ac yn rhydd o gemegau a gor-leithder

**Niwtraleiddio gwallt fel rhan o'r broses byrmio**

1.
swyddogaeth a phwysigrwydd niwtraleiddio yn y broses byrmio
2.
pwysigrwydd amseru manwl gywir wrth niwtraleiddio pyrmiau
3.
pam ei bod yn bwysig trin a thrafod y gwallt yng nghyfeiriad y gwynt wrth rinsio a blotio
4.
sut y gall pwysedd dŵr effeithio ar y gwallt wrth dynnu niwtralyddion yn ystod y broses byrmio

5.
pwysigrwydd rinsio cynnyrch yn drylwyr o'r gwallt
6.
pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr mewn perthynas â'r cynhyrchion pyrmio a niwtraleiddio penodol sydd yn eich salon
7.
pwysigrwydd tynnu'r rhodiau pyrmio heb aflonyddu ar ffurfiant y cwrls
8.
pwysigrwydd cadarnhau cyfforddusrwydd y cleient drwy gydol y broses niwtraleiddio
9.
y mathau o broblemau all ddigwydd wrth niwtraleiddio pyrmiau a beth sy'n eu hachosi

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

### 1. Iechyd a diogelwch

Eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch fel y maent yn cael eu diffinio gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n gysylltiedig â'ch rôl swydd

1.1 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

1.2 Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (*RIDDOR*)

1.3 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)

1.4 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)

1.5 Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario

1.6 Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (*COSHH*)

1.7 Rheoliadau Trydan yn y Gweithle

1.8 Deddf Diogelu'r Amgylchedd

1.9 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

1.10 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Weithwyr)

## Gwerthoedd

1. Mae'r **Gwerthoedd Allweddol** canlynol yn tanategu cyflenwi gwasanaethau yn y sector trin gwallt a gwaith barbwr:

1.1 parodrwydd i ddysgu

1.2 cwblhau'r gwasanaethau o fewn amser masnachol ymarferol

1.3 bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant fel ei gilydd

1.4 sicrhau bod hylendid a diogelwch personol yn bodloni gofynion y diwydiant a'r sefydliad

1.5 agwedd hyblyg tuag at waith

1.6 gweithiwr tîm

1.7 cynnal a chadw gofal cwsmeriaid

1.8 agwedd gadarnhaol

1.9 agwedd broffesiynol

1.10 sgiliau cyfathrebu geiriol a chyfathrebu di-eiriau da

1.11 cynnal a chadw dulliau gweithio effeithiol, hylan a diogel

1.12 cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, y cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr er mwyn defnyddio cyfarpar, defnyddiau a chynhyrchion yn ddiogel

1.13 cadw at fesurau iechyd a diogelwch a gwarchodaeth y gweithle

## Ymddygiadau

1. Mae'r **ymddygiadau** canlynol yn tanategu'r dasg o gyflenwi gwasanaethau yn y sector trin gwallt a gwaith barbwr. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r salon a'r unigolyn fel ei gilydd

1.1 bodloni safonau ymddygiad y salon

1.2 cyfarch y cleient yn barchus ac mewn ffordd gyfeillgar

1.3 cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd foesgar a chwrtais

1.4 adnabod a chadarnhau disgwyliadau'r cleient

1.5 ymateb yn brydlon a chadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient

1.6 rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleient a'i chadw/gadw'n gysurlon

1.7 ymateb yn brydlon i gleient sy'n ceisio cymorth

1.8 dod o hyd i wybodaeth ar fyr dro fydd o gymorth i'r cleient

1.9 ymdrin â phroblemau o fewn cwmpas eich cyfrifoldebau a'ch rôl swydd

1.10 dangos parch tuag at gleientiaid a chydweithwyr ar bob adeg a than bob amgylchiad

1.11 ceisio cymorth ar fyr dro oddi wrth aelod hŷn o'r staff pan fydd angen

1.12 rhoi i'r cleient y wybodaeth sydd ei hangen arni/arno am y gwasanaethau neu'r cynhyrchion a gynigir gan y salon

SKACHB7

Cynorthwyo gyda gwasanaethau pyrmio gwallt

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2014 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2018 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | SKAGH5 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Mentrau mân-werthu a masnachol, Mentrau Gwasanaeth, Galwedigaethau Gwasanaeth Personol, Trinwyr gwallt a Galwedigaethau Cysylltiedig |
| **Cyfres/Set** | Trin gwallt, Trin gwallt a barbro |
| **Geiriau Allweddol** | Cynorthwyo; pyrmio |